## Crynodeb 2 funud

- nid yw'n wir bod teulu agos neu ffrindiau'n gallu gwneud penderfyniadau ar eich rhan yn awtomatig os oes angen
- mae atwrneiaeth arhosol yn golygu bod rhywun rydych chi'n ymddiried ynddo yn gallu camu i mewn yn gyflym ac yn ddidrafferth
- chi sy'n cadw rheolaeth drwy benderfynu **PWY** sy'n gallu siarad ar eich rhan, **PRYD** maen nhw'n gallu siarad ar eich rhan, a **BETH** maen nhw'n gallu ei ddweud
- mae'n ymwneud â mwy nag arian yn unig, mae angen amddiffyn eich dewisiadau am eich iechyd a'ch gofal hefyd
- os yw pethau'n syml, does dim angen i chi geisio cyngor cyfreithiol
- mae'n debyg bod cofrestru atwrneiaeth arhosol yn haws ac yn rhatach nag y byddech chi'n ei feddwl. Yn dibynnu ar eich amgylchiadau, efallai na fydd tâl hyd yn oed

## Beth i'w wneud nesaf

Siaradwch â rhywun rydych chi'n ymddiried ynddo heddiw am greu atwrneiaeth arhosol.

Neu, os hoffech wybod mwy:

**Ewch i powerofattorney.campaign.gov.uk**

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

# Atwrneiaeth arhosol

**Os byddwch yn colli'r pŵer i wneud rhai penderfyniadau, mae atwrneiaeth arhosol yn cadw'r penderfyniadau hynny gyda'r bobl rydych chi'n ymddiried ynddynt.**



Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

# Pwy sy'n siarad ar eich rhan os na allwch siarad drosoch eich hun?

Mae atwrneiaeth arhosol yn ei gwneud hi'n haws i'r bobl rydych chi'n ymddiried ynddyn nhw eich cefnogi chi pan fydd ei angen fwyaf arnoch chi. Gallai fod yn gymorth dros dro i dalu am arhosiad byr yn yr ysbyty, neu'n gymorth tymor hirach i reoli penderfyniadau sy'n ymwneud â'ch iechyd a'ch gofal.

Efallai eich bod yn meddwl y gall eich partner neu aelodau agos o'ch teulu wneud penderfyniadau ar eich rhan os nad ydych yn gallu gwneud hynny, ond nid yw hynny'n wir. Pe bai'n rhaid iddyn nhw dalu eich biliau neu wneud dewis ynghylch eich triniaeth feddygol, byddai angen awdurdod cyfreithiol arnyn nhw i wneud hynny.

Mae atwrneiaeth arhosol yn gadael i bobl rydych chi'n ymddiried ynddyn nhw gamu i mewn yn gyflym ac yn ddidrafferth pan fydd ei angen fwyaf arnoch chi. Mae'n rhoi llais i chi, ac yn diogelu eich dewisiadau.

# Sut mae gwneud cais am atwrneiaeth arhosol

## Cam 1

### Cynnwys y bobl rydych chi'n ymddiried ynddynt

Yn gyntaf, dewiswch rywun mae gennych chi hyder ynddo i gyflawni eich dymuniadau. Does dim rhaid ichi fod yn briod na'u bod yn aelod o'r teulu. Gwnewch yn siŵr ei fod yn rhywun rydych chi'n ymddiried ynddo.

## Cam 2

### Penderfynu pa atwrneiaeth arhosol sy'n addas i chi

Mae dau fath gwahanol o atwrneiaeth arhosol:

- un sy'n ymwneud â'ch arian, fel cynnal eich cyfrif banc, talu eich biliau a chasglu eich pensiwn
- un sy'n ymwneud ag iechyd a lles, fel eich triniaethau meddygol a'ch amodau byw

Rydyn ni'n argymell eich bod yn cael y ddau.

## Cam 3

### Gwneud cais a chofrestru

Ewch i gov.uk/power-of-attorney a dewis:

- dechrau eich cais ar-lein gyda chanllawiau ar bob cam, neu gallwch
- lawrlwytho'r ffurflenni, eu hargraffu a'u llenwi â llaw.

## Faint fydd hyn yn ei gostio?

Mae fel arfer yn costio £82 i gofrestru pob atwrneiaeth arhosol. Fodd bynnag, efallai y byddwch chi'n gallu haneru'r gost hon, neu efallai na fydd tâl os ydych chi'n ennill llai na £12,000 y flwyddyn, neu os ydych chi'n cael rhai budd-daliadau.

I weld a oes gennych chi hawl i ostyngiad, ac i wneud cais am un, lawrlwythwch y ffurflen gais a'i llenwi ar ein gwefan.